



1. Gwylan gefnddu fwyaf



Dyma'r wylan fwyaf a welir yn nysoedd Prydain. Ei chefn yn ddu, ei phen a'i chorff yn wyn. Pig felen, drom ac arni smotyn coch a choesau pinc golau. Fel

gwylan y penwaig, aderyn ysglyfaethus iawn yw hi, gan fwyta pysgod, llygod, adar a'u cywion gan gynnwys wyau a chywion gwylanod eraill. Mae fel arfer yn aros yn yr un man o flwyddyn i flwyddyn. Am ei bod yn aderyn sy'n hela, mae fel arfer ar ei phen ei hun, neu yn un o ddwy.

4. Aderyn drycin y graig

Er bod yr aderyn yma yn edrych yn debyg i wylan ar yr olwg gyntaf, nid oes unrhyw berthynas rhyngddynt. Mae'n nythu ar greigiau gerllaw'r môr, ac yn dodwy un wŷ gwyn.

Mae'r cywion a'r oedolion, pan yn nythu, yn medru cyfogi cymysgedd olewlyd o'r stumog ar ben unrhyw ddyn neu anifail sy'n dod yn rhy agos. Yn y gaeaf maent yn byw ar y môr agored. Eu prif fwyd yw pysgod. Gellir eu gwahaniaethu oddi wrth y gwylanod trwy eu dull o hedfan, heb blygu'r adenydd. Mae'r pig hefyd yn wahanol iawn i un gwylan os yn weddol agos.



2 Mulfran werdd


Mae'n aderyn mawr du, Gall fod yn anodd gwahaniaethu rhyngddo â'r fulfran, ond mae ychydig yn llai, a'r pig yn llai ac yn deneuach. Mae siâp y pen yn wahanol, yn dangos mwy o "dalcen". Yn y tymor nythu mae plu hirach ar y pen, ac mae gwawr

werdd ar y plu. Pysgod yw'r prif fwyd, ac mae'n pysgota yn y môr, yn wahanol i'r fulfran sydd hefyd yn pysgota ar afonydd a llynnoedd. Mae'n dal y pysgod trwy nofio o dan y dŵr. Yn nythu, yn gynnar, ar glogwyni ger y môr fel rheol, ac yn adeiladu nyth o wymon a phriciau.

5. Morwennol gyffredin

Gwyn yw'r rhan fwyaf o'r plu, gyda llwyd ar y cefn ac ar ran uchaf yr adenydd. Mae'r pig yn goch gydag arlliw oren, a darn tywyll ar y blaen, yn wahanol i

forwennol y gogledd sydd â phig goch dywyll. Mae gan forwennol y gogledd gynffon hirach a choesau byrrach hefyd. Mae'r forwennol gyffredin rhwng 34 a 37 cm o hyd a 70–80 cm ar draws yr adenydd. Yn yr haf mae cap du ar y pen, ond yn y gaeaf mae'r talcen yn troi'n wyn.



3 Llurs

Fel y rhan fwyaf o'r teulu mae'r cefn yn ddu a'r bol yn wyn, ond gellir ei hadnabod oddi wrth y pig, sy'n llawer mwy na phig y gwylog er enghraifft. Mae'r gynffon yn hirach na chynffon y gwylog hefyd. Yn y gaeaf mae'n treulio ei hamser ar

y môr agored, ac yn aml yn symud i'r de o'r ardaloedd lle mae'n nythu. Yn y tymor nythu mae'n ymgasglu'n heidiau lle mae creigiau addas ar lan y môr. Mae'r wyau yn cael eu dodwy ar silffoedd ar y creigiau, heb unrhyw fath o nyth, ond mae siâp yr wŷ yn help i'w gadw rhag syrthio. Maent yn bwyta pysgod sy'n cael eu dal trwy nofio dan y dŵr.

6. Gwylan benddu

Un o'r gwylanod lleiaf, Nid yw'n benddu o gwbl mewn gwirionedd, gan fod ei phen yn frown yn yr haf ac yn wyn gyda smotyn du tu ôl i'r llygaid yn y gaeaf. Mae hi i'w gweld yn aml yn y gaeaf ym mharciau ein trefi ac ar wair agored fel caeau pêl-droed. Mae llais yr wylan benddu wedi cael ei gymharu â llais 'Punch'.



Pryd?

Ble?

Pwynt

1 _____

35

2 _____

30

3 _____

30

Pryd?

Ble?

Pwynt

4 _____

20

5 _____

25

6 _____

20